

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**  
**Dydd Gwener 29 Medi, 2.00 - 4.30 pm**  
**Pafiliwn y Grange**



<p><b><u>Yn bresennol</u></b></p> <p><b>Aelodau'r Bwrdd:</b></p> <p>Y Cyngorydd Huw Thomas  <b>(Cadeirydd)</b>  Paul Orders  Sarah McGill</p> <p>Len Richards  Fiona Kinghorn  Sheila Hendrickson-Brown  Mark Brace  Gareth O'Shea  Dai Bents  Abigail Harris</p> <p><b>Ymddiheuriadau:</b></p> <p>Maria Battle <b>(Is-gadeirydd)</b>  Peter Vaughan  Huw Jakeway  Belinda Davies  Peter Greenhill  Victoria Harris  Jo Salway</p> <p><b>Hefyd yn bresennol:</b></p> <p>Gareth Newell</p> <p>Nathan Swain (Clerc)  Clive Bailey  Sereen Kutubi  Nadia De Longhi  John Hogg</p>	<p>Arweinydd Cyngor Caerdydd  Prif Weithredwr, Cyngor Caerdydd  Cyfarwyddwr - Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Cyngor Caerdydd  Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  Prif Swyddog Gweithredol, C3SC  Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddau  Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC  Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru  Cyfarwyddwr Cynllunio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</p> <p>Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIY C&amp;F)  Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru  Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru  Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru  Pennaeth Uned Darpariaeth Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru  Pennaeth Dros Dro Uned Ddarpariaeth Leol Caerdydd a'r Fro  Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru</p> <p>Rheolwr Polisi, Partneriaethau ac Ymchwil, Cyngor Dinas Caerdydd  Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, Cyngor Caerdydd  Swyddog Polisi a Phartneriaethau, Cyngor Caerdydd  Swyddog Polisi a Phartneriaethau, Cyngor Caerdydd  Rheolwr Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru  Cyfoeth Naturiol Cymru Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De</p>
--	---

Rhif	Eitem ar yr agenda	
1.	<p><b>Croeso a Chyflwyniad</b> Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nodi'r ymddiheuriadau fel uchod.</p>	
2.	<p><b>Cofnodion a chymau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – 23 Mehefin 2017</b> Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd.</p> <p><b>Cofnodion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol - 17 Awst 2017</b> Nododd Fiona Kinghorn ddiwygiad i deitl ei swydd – Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Y Cyhoedd</p>	Ysgrifenyddiaeth
3.	<p><b>Cynllun Llesiant Caerdydd</b></p> <p>Rhodd Gareth Newell drosolwg o'r cynllun llesiant, gan dynnu sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Disgwylir cyngor gan Gomisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol yr wythnos nesaf</li> <li>• Bydd ymgynghoriad 12 wythnos yn cael ei lansio'r wythnos nesaf</li> <li>• Bydd digwyddiadau lleol yn canolbwyntio ar faterion lleol yn hytrach na'r cynllun llawn</li> <li>• Caiff digwyddiad lansio ei drefnu, wedi'i arwain gan Sustain Cymru</li> </ul> <p>Bu trafodaethau am y mesurau, a yw mecanweithiau ar waith i gasglu'r wybodaeth ofynnol, a'r angen i bennu targedau (lle rydym yn nawr a lle hoffem fod).</p> <p>Awgrymwyd bod angen i fesurau gael eu hadrodd ar lefel lleol er mwyn iddynt fod yn ystyrion i drigolion.</p> <p><b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cymeradwyo drafftio Cynllun Llesiant i ymgynghori arno</li> <li>• cymeradwyo cynllun ymgysylltu</li> <li>• cynnal cyfarfod ychwanegol ar 12 Rhagfyr 2017 i gyd-fynd â Chyngor Mawr Cyngor Ieuenctid Caerdydd</li> </ul>	

	<p><b>CAMAU GWEITHREDU:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen gwneud gwaith o ran mesur dangosyddion cynnydd: <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Archwilio pa fesurau y gellir eu darparu ar lefel leol / cymdogaethol</li> </ul> </li> <li>• Ymgynghori ac ymgysylltu fel y nodir yn y cynllun wedi cytuno</li> <li>• Trefnu digwyddiad Cynllun Llesiant Drafft Caerdydd ar gyfer arweinyddiaeth y BGC</li> <li>• Trefnu cyfarfod ychwanegol ar gyfer 12 Rhagfyr 2017</li> </ul>	<p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Grŵp Ymgysylltu Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p>
<p><b>4.</b></p>	<p><b>Twf Gwydn</b>  <i>Amcan 2 – rheolir Twf Poblogaeth Caerdydd mewn Ffordd Wydn</i></p> <p>Rhoddodd Gareth Newell gyflwyniad yn amlinellu rhagfynegiadau twf ar gyfer Caerdydd, gan dynnu sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dros y 20 mlynedd nesaf bydd Caerdydd yn tyfu'n gynt na gweddill Cymru i gyd</li> <li>• ni welir twf cyfartal ym mhob oedran grŵp, gan y bydd cynyddiadau sylweddol yn y boblogaeth o bobl dan 18 oed a dros 65 oed.</li> </ul> <p>Rhoddodd John Hogg a Nadia de Longhi, gyflwyniad ar oblygiadau'r twf poblogaidd hwn ar gyfer Seilwaith Gwyrdd Caerdydd, gan amlinellu i'r PSB y pwysigrwydd o reoli adnoddau naturiol Caerdydd mewn ffordd gynaliadwy. Fe wnaethant ddefnyddio'r Project Grangetown Werddach, cynllun partneriaeth £2m yr ymwelodd Aelodau'r Bwrdd ag ef, i ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan rydym yn gweithio ynghyd i sicrhau amryw fanteision. Fe wnaethon nhw esbonio sut y gall y project retro hwn gael ei ddefnyddio fel templed ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol yng Nghaerdydd.</p> <p>Bu trafodaeth ar ôl hynny ar rôl y BGC yn mynd i'r afael â'r her hwn, gan ganolbwyntio ar yr angen i sicrhau bod datblygiadau adeiladu dros y 10 – 20 mlynedd nesaf yn cynnwys atebion cynaliadwy a thechnoleg arloesol.</p> <p><b>CAMAU GWEITHREDU:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen.  Grŵp i fod yn gyfrifol am archwilio atebion gwydn a chynaliadwy i dwf poblogaeth a datblygu yn y ddinas gyfan – gan adrodd yn ôl i BGC Caerdydd.</li> </ul>	<p><b>Ysgrifenyddiaeth</b>  <b>/ Grŵp G&amp;G</b></p>

<p>5.</p>	<p><b>Sganio'r Gorwel ac Unrhyw Fusnes Arall</b></p> <p><b>CAMAU GWEITHREDU:</b></p> <p><b>Dinas sy'n Ystyrlon o Blant</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Awgrymwyd y dylai Maria Battle fod yn Hyrwyddwr Partner Hawliau Plant y BGC Len Richards i siarad â hi a chadarnhau.</li> </ul> <p><b>Digwyddiad y 1000 o Ddyddiad Cyntaf</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgrifenyddiaeth i e-bostio gwybodaeth a cheisio awgrymiadau</li> </ul> <p><b>Unrhyw Fater Arall</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Awgrym i ganolbwyntio ar deithio a thrafnidiaeth (teithio llesol / teithio cynaliadwy) ar gyfer cyfarfod y BGC yn y dyfodol.</li> </ul> <p>Bu trafodaeth ar bwysigrwydd y BGC yn peidio â chanolbwyntio'n rhy eang, ond i sicrhau bod byrddau priodol yn arwain ar waith ac yn adrodd i'r BGC, gydag adnoddau'n cael eu dyrannu o aelodaeth y BGC.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fframwaith Adrodd i gael ei ddatblygu, wedi'i halinio ag Amcanion Llesiant ac Ymrwymadau unigol</li> </ul>	<p><b>Len Richards</b></p> <p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p>
<p>6.</p>	<p><b>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</b></p> <p>I'w drefnu – 12 Rhagfyr 2017 (wedi'i trefnu i gyd-fynd â Chyngor Mawr Cyngor Ieuenctid Caerdydd)</p>	